MINUTES OF THE
25TH MEETING OF THE TRAWSFYNYDD SITE STAKEHOLDER GROUP
HELD AT THE TRAWSFYNYDD CONFERENCE AND INDUCTION CENTRE ON
MONDAY 6TH JUNE 2016

Present

Cllr Keith O'Brien	Trawsfynydd Community Council, SSG Chairman
Cllr John Richards	Talsarnau Community Council, SSG Vice Chair
Cllr D Williams	Maentwrog Community Council
Cllr Meredydd Williams	Maentwrog Community Council
Cllr Tom Ellis	Gwynedd County Council
Cllr Gareth Thomas	Gwynedd County Council
Mr Ifer Gwyn	Snowdonia National Park Authority
Mr Idwal Williams	Trawsnewid
Dafydd Elis-Thomas AM	Assembly Member for Dwyfor Meirionnydd
Mr Martin Moore	Trawsfynydd Site Closure Director
Mr David Carbrera	Magnox Ltd
Mr Rory Trappe	Magnox Ltd
Mr Ian Warner	Magnox Ltd
Sion Richards	Magnox Ltd
Ms Michelle Humphreys	Magnox Ltd
Mr Richard Clarke	The Environment Agency, Nuclear Regulation Section
Mr Paul Wright	Natural Resources Wales
Mr Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power
Mrs Jill Callander	SSG Secretariat Co-ordinator, Magnox Ltd

1. Apologies

Mrs Annette Jones	WI
Mrs Gwen Pettifor	WI
Mr Nick Blackburn	Office for Nuclear Regulation (ONR)
Mr Andrew McAteer	Maentwrog Site Engineer
Mr Paul Hunt	COO Decommissioning Sites, Scotland & Wales
Mr David Powell	Natural Resources Wales
Mr Dafydd Jarrett	National Farmers Union
Mr Jonathan Cawley	Snowdonia National Park Authority
Ms Angharad Rayner	Magnox Ltd
Mr Simon Dawson	Magnox Ltd
Liz Saville Roberts MP	Member of Parliament
Mrs Lowri Joyce	Hitachi GE
Mrs Nia Swann Bowden	Gwynedd County Council
Mr Jonathan Jenkin	NDA

2. Approve the minutes of the 24th meeting of the SSG held on 7th December 2015

It was proposed that the minutes were a true and correct record of proceedings by Cllr Tom Ellis. This was seconded by Cllr John Richards.

The Chairman extended a special welcome to Lord Dafydd Elis-Thomas, as well as Jill Callander, who has taken over the role of Karin White as Secretariat. Jill introduced herself and thanked everyone for the welcome, while also mentioning that a special mailbox in now available for SSG correspondence and encouraged members to use this as a point of contact. Trawsfynydd.ssg@magnoxsites.com.

3. Matters arising from the minutes of the 24th meeting of the SSG held on 7th December 2015

Page 5, Point 5.1 – Cllr Meredydd Williams stated that he had received the figures but there hadn't been an opportunity to go through them yet. Another meeting was going to be held in order to discuss them. He wished to thank Geraint and Sion for their quick response.
Page 6 – Regarding the action point and the guidance mentioned under point 9, Richard Clarke stated that Ian Warner would be giving a presentation later on today. He also stated that the consultation had only just finished so it would make sense to discuss that at a later date.

4. Chairman's Address

Keith O'Brien had attended an NDA event in Manchester in January. The main issue that was discussed was the Draft NDA Strategy. Workshops had been held all day, and many points had been raised. One obvious point was the need for stakeholders to make sure sites were used, to create economic work etc. He also mentioned that they had seen a short film on geological disposal and the burial of waste, which was very interesting. It had been a good opportunity for everyone to provide input.

The Chairman thanked Martin Moore for the site tour which had taken place earlier that morning. Around eight years had gone by since the last tour, and he emphasised that everyone was grateful and appreciated the opportunity to see the developments which had taken place.

5. Closure Director's Report

Martin Moore thanked everyone for taking the time to go on the tour and referred everyone to his report.

He expressed that the safety performance had improved, which had taken a lot of effort. A lot of work by everyone on site had gone into ensuring that proactive reporting and management of issues occurs to avoid accidents and harm.

A couple of incidents had taken place since January which had expressed a need to make it clear to contractors that they have to work safely on site. They had been working with them with the aim of helping them to recognise standards. He was hoping the standards would continue to rise and was pleased to say that he was happier with standards overall, and pleased that the site was running in a safe and efficient manner.

Since the previous SSG, the Lifetime Plan submission to the NDA had been completed. It was understood that there would be challenges by the NDA. The broad outline given in the December SSG meeting remained the same – dates may have moved but the scope is the same. The key changes include a revised programme which now has a period of continuous

work up to and including the implementation of the weather barrier and associated height reduction of the reactor safestores. The work programme is expected to be complete in Financial Year 2028/29. The site will endeavour to complete the work earlier of course but this date is realistic and credible.

In the period between 2016 and 2022 the site would complete, as planned, the hazard reduction phase of works and complete the transfer of Intermediate Level Waste packages into the Interim Storage Facility. The store is currently approximately 50% full.

A number of new plant areas would be moving from Commissioning into Operations this year. The first would be the Miscellaneous Sludge Facility, which was now producing ILW waste packages, followed by the FED handling plant later on in the year.

Regarding the workforce, it was recognised that there was a lot of uncertainty back in December as the site progressed through the restructuring programme, however the outcome had been generally more positive than people had expected. The site had been able to retain most of the directly employed workforce and had been able to offer employment to people from Wylfa. He was pleased for the individuals but noted that this was beneficial for the site as well. This was very much in line with the original aim.

Traws had recently hosted a visit from the Welsh Affairs Parliamentary Committee in support of their Inquiry into the Future of Nuclear Power in Wales. As part of this process, he and the Magnox Managing Director and the Wylfa Site Director had been called to Westminster to give evidence in support of the Inquiry.

Questions

5.1 ***Cllr John Richards*** *enquired further about the North FED facility decommissioning.*
Martin Moore: *Fuel Element Debris retrieval preparations had progressed well and the North FED facility had commenced non-active commissioning. FED retrieval remained on target to commence around late October 2016.*

5.2 ***Cllr Gareth Thomas:*** *You mention staff from Wylfa and additional skills. What sort of skills are these?*
Martin Moore: *These could be conventional or demolition skill for example, and skills that are transferable, such as project management skills. Looking forward to when it's purely demolition on site in the height reduction phase, contracts are expected to go to specialist contractors, however, it is anticipated that there will still be a need for a broad range of skills on the site. Contractors will often try to employ people locally if they can, as it often reduces their costs, and it is important for people to have skills that lend themselves to various jobs in order to be employable in the long term.*

There may be other types of work in the area apart from nuclear, and the development of varied skills were encouraged, e.g. electricians, project managers etc. People have taken on new roles which they are more than capable of doing, and that is encouraged. Not everyone will be able to (or want to) move on to the construction phase, but there is definitely work available.

People were wary at first when they came from Wylfa to Traws, but they adapt quickly and are finding it interesting, different and exciting.

5.3 ***Idwal Williams:*** *You mentioned the Welsh Affairs Parliamentary Committee visiting the site and long term employment, do you have anything else to add about these matters?*
Martin Moore: *From a personal point of view, there is a willing workforce in the area, but the future employer is not evident at present. Magnox are looking to complete their works as soon as possible but we would obviously seek to work alongside any future employer if they wished to develop the site for future use.*

6. Environmental Report
In Angharad Rayner's absence, Sion Richards reported that there had been no significant issues in the first few months of the year and a full report would be given in the next meeting at the end of the year.

7. Report by the Emergency Planning Consultative Committee
Sion Richards stated that they were in the process of dialogue with the ONR and were hoping to receive final approval from the Regulator. By the end of the year, there would hopefully be new contingency arrangements in place to replace existing ones. There were no major issues to report since the last meeting but things were well under way.

Martin Moore mentioned that North Wales Fire and Rescue had expressed concerns regarding the extent of their involvement is site arrangements, but with their continued involvement in exercise planning and recent exercises on the site had all parties were much happier with the new arrangements. As an example, he stated that absailors had been working on site recently and if there happened to be an incident, NWFR wouldn't be expected to step in to recover casualties, but that proven self-rescue arrangements on the site would recover a casualty to an agreed handover point. Overall, it was a case of coming out of the present arrangement and finding arrangements that work for Traws, and increased levels of commitment and engagement.

<u>Questions</u>

7.1 ***Cllr Tom Ellis****: With regards to exercises etc., is this going to create concern amongst local people? Is there a way of letting us know when exercises are held?*
Martin Moore: *We do inform people of safety/security exercises. There will be an exercise in future which will be more extensive, and people will be briefed prior to that.*

7.2 ***Cllr Tom Ellis****: A year or two ago, helicopters were heard in the middle of the night, which caused great concern. Local people should be warned, otherwise there will be a lot of panic – especially in this day and age.*
The Chairman reinforced this point, and indicated that local farmers had already been made aware of an exercise by the army in September/October.
Martin Moore: *We did raise concerns following that incident and I spoke to Liz Saville Roberts about it. Learning from that incident will be taken forward. There will be extensive communication regarding the exercise later on in the year, and people will be made aware of*

the duration, the vehicles involved etc. We do take your concerns on board. These are valuable exercises though, but I absolutely agree that the event last year was unacceptable. ***Cllr Meredydd Williams****: There was a lot of panic and alarm at that time. Even the Police didn't know what was happening and people were told to contact RAF Valley. RAF Valley was in the dark as well, and hours went by before things became clearer. We know that there is another exercise in October. This should be made public and the Police should know about it before hand. It is understandable though that these exercises need to take place.*

The Chairman thanked the members for raising these points and it was noted that better communication is needed in the future.

8. Report by the Office for Nuclear Regulation
There was no representative from the ONR present at the meeting but a report had been provided.

9. Report by Natural Resources Wales
Paul Wright noted that everything is well within levels with regards to radioactive discharges. There was no obvious cause for concern.

Richard Clarke raised a few points regarding non-routine matters. They had been reviewing an event that occurred in February whereby the proposed dispatch of IBC's had triggered the gatepost radioactivity monitors. No items had left the site, but this highlighted deficiencies in the implementation of company standards for the management of portable containers.

They were satisfied with the operator's Recovery Quality Plan and satisfied with the temporary measures put in place. The enforcement assessment would hopefully be completed by the end of June.

As a result of an event raised on 29 October 2015 relating to the HiRAM waste assay system, a Warning Letter had been issued to the site for the breaches of three conditions of a permit. Rickard Clarke noted that in such situations they do like to act pragmatically and work with sites rather than just issue letters. He expressed that there had been a positive transformation on site since 2014 but there were continuing issues with HiRAM and how the site and the contractors were controlled. However, the Site was well under way with the recovery plan, and they were confident for the future.

10. Report by the Nuclear Decommissioning Authority
There was no representative from the NDA present but a report had been provided.

Cllr John Richards noted that it was a shame no one was present from NDA because a year is a long time to wait for questions to be answered.

It was understood that the purdah period for the EU referendum was the reason for the NDA's absence.

Cllr John Richards wished to know what the NDA's intentions were regarding the Maentwrog site. Would it be possible to have an answer to that question or arrange a meeting?

Idwal Williams expressed concern as well.

There were no Maentwrog representatives present at the meeting and it was asked whether there was a reason for this.

The Chairman asked Jill if it would possible find out if there was a reason why the Maentwrog officials weren't present.

11. Presentation: Optimising waste management and site end states
Ian Warner, End State Project Manager, Magnox Ltd, gave a presentation regarding Optimising site end states and associated waste management.

He explained that the purpose of the presentation was to give an update on new Regulatory guidance (referred to as the "GRR") and possible changes, and provide an overview of the associated work programme and the potential impact of this for the final end state of the site.

He explained the current approach relating to Nuclear Licensed sites, and the various licences and permits involved, i.e. the contribution of the ONR (Nuclear Safety), Natural Resources Wales/The Environment Agency (Environmental/Public protection), and the Local Authority through the planning and development framework.

He gave the background to the life cycle of a power station and explained the various phases and timescales to convey the period of Environmental Regulation that applies to nuclear power stations. The question being asked by Government is whether there is a more balanced way to regulate sites in the latter years of the lifecycle such as whether there is a need for a specialist nuclear safety regulator after all significant nuclear hazards have been dealt with and the remaining type of work involved is generally of a conventional nature eg demolition activities.

He referred to the Guidance on Requirements for Release of Nuclear Sites from Radioactive Substance Regulation, the new Guidance recently issued by the Environment Agencies'. The aim is to think about what is the right thing to do with wastes. It is based on managing risks and developing more sustainable solutions.

Where appropriate and optimised, some low level decommissioning wastes could remain on site rather than being transported for off-site disposal, the benefits being:

- Less waste shipped off for disposal
- Less material imported to fill voids
- Safe for future generation
- Environment protected
- Uses less resources
- Better value for money

The types of wastes include:
– Low Level Waste
– Relatively high volume/low hazard waste
– Wastes associated with demolition/redundant below ground structures, including concrete tanks/voids, concrete/brick rubble, soil and buried pipes/drains

The options of what to do with the waste could include transporting it off-site by road for off-site disposal through to building a dedicated waste disposal facility on site (this latter option isn't being considered for Trawsfynydd though), amongst other things. It really is a balancing act which aims to establish the most sustainable option considering a range of factors.

Three 'lead and learn' sites have been chosen to trial the guidance over the next year or so (with regulator involvement) – Winfrith, Dounreay and Trawsfynydd. The aim is to develop optimised solutions for these sites and assess the timings for planning considerations etc. The GRR would be revised as appropriate and learning would be applied to other sites.

To summarise, this is about trialling new Regulatory Guidance as part of a wider review of the regulation of nuclear sites. We are required to develop an optimised end state which may involve leaving in place some low activity wastes. However, it is important to note that nothing has been decided yet and stakeholder engagement will form part of the development of an optimised end state.

Questions

11.1 ***Rory Trappe****: With regards to Ponds for example, how does this affect the decommissioning timing?*
Ian Warner*:* This shouldn't be affected.

11.2 ***Idwal Williams****: Thinking about these three sites, you wouldn't be able to do this with other sites because of their close proximity to the sea. You have to come to an understanding with local areas. There is potential to make a lot of savings here. Something should come back to the community. Regarding being near the sea, with rise in levels, you may not be able to get away with it.*
Cllr John Richards*: This is probably a money saving exercise.*
Ian Warner*: This goes back to the options. Does it make sense to take things from one part of the country to another? There could be savings in other fields as well, such as conventional safety, avoiding dose to workers and minimising the environmental impact from the transport off-site of large volumes of waste. All of these factors need to be considered as part of the optimisation exercise.*

11.3 ***Cllr John Richards****: We were told about three packages. There is still no clear mandate. Why is this process taking so long?*
Martin Moore: *We have had to go through detailed planning etc. with regards to Ponds. Until we decontaminated Ponds it was difficult to do work as we didn't want people to be exposed to radiation. From a site perspective, we need to know who we need to engage with*

in regard revised options, and this is an opportunity to look again at things. These three sites have played a critical role. We have had talks with the National Park and have anticipated the guidance appropriately. Until we know what is in the ground, we can't do anything. We have a clearer picture now though.
Richard Clarke: *There are various reasons why this has taken so long. We have to recognise the need to know what is happening and when. We have tiers of regulations and we need to know who is doing what, and this has been the incentive for all this. ONR will potentially drop out at a certain point and the UK has to show it can deal with nuclear legacy.*

11.4 ***Cllr Gareth Thomas:*** *There is a lot of work to be done to sell this to the community. When it comes to Ponds, for example, people may be looking at doing the right thing in 20 years' time, but by then it's quite possible that the sea levels will have risen and things will have to be brought into Traws. That's the concern.*
Ian Warner*: There isn't any intention to take waste from other sites for disposal at Trawsfynydd.*
Cllr Gareth Thomas: *In 20 years' time, someone in a similar position may say 'we'll take it to Traws'. It is a local worry.*
Richard Clarke: *It must be remembered that this is a trial. The level of detail is exceptional, so if you fill in voids and leave contaminated concrete, the safety case must be for hundreds of years into the future, with ongoing monitoring. In terms of Regulations, we would utilize everyone possible while looking at the work to ensure the best input possible.*
Cllr Tom Ellis: *Ponds is the main concern. Who is going to look at their condition in 60, 70 or 100 years' time? They're definitely going to deteriorate, but who is going to check them and take care of them?*
Martin Moore: *Work has been put in and we have looked at the structure. We have to demonstrate the basis for assumptions and have teams of local experts. If anything is incomplete it will not be approved. If the solution would be to leave Ponds in the ground, the assessment would address the question of "for how long would this be considered safe"? At this stage we could make a case which covers approximately 150 years,after which the hazard would be significantly reduced.*

The Chairman thanked everyone for their comments and emphasised that this is just the beginning and that ensuring clear communication is key.

12. Magnox socio-economic scheme update
Michelle Humphreys stated that 120 organisations had benefited across the UK, leading to 89 new jobs, £2.2 million in economic benefit, as well has many training opportunities.

She thanked everyone who had taken part in the recent consultation on the draft Magnox Socio-economic Plan.

She was pleased to announce that the Traeth Skills Academy in Porthmadog Football Club was well under way. The Cwm Community Action Group had also received funding from Magnox and the Heritage Lottery Fund for the Snowdonia Slate Trail.

The Gwynedd Leader programme was also going well, with a lot of exciting activities going on.

13. Any Other Business
Richard Foxhall gave an update about Wylfa. Horizon had appointed a joint venture responsible for construction of its Wylfa Newydd plant. The newly created company, Menter Newydd, is a joint venture of Hitachi Nuclear Energy Europe, Bechtel Management Company and JGC Corporation (UK).

He mentioned the story in the press which stated that Wylfa Newydd would not be going ahead, and emphasised that there was no basis whatsoever to this.

A consultation had been held in January on the planning application to be submitted to the Isle of Anglesey County Council. Two years of work had gone into this and the hope was to have a consent order.

A new CEO had been appointed – Duncan Hawthorne – who has been working with Bruce Energy in Canada. Sasha Wyn Davies had also been appointed as Head of Strategic Development for Wylfa Newydd. She joins the Wylfa Newydd team from Conwy County Borough Council and previously she was Head of Economic Development at Isle of Anglesey County Council.

The work to expand the office to accommodate 80 workers is coming to an end.

There would also be a press release in the near future regarding the recent recruitment period, where local young people had been recruited.

The Chairman thanked Richard Foxhall for his update.

Cllr Tom Ellis stated that the level of the lake had fallen substantially and enquired whether it would be possible to test the peat for radioactivity levels. Sion Richards replied that tests are conducted when the level is low – this is something they keep an eye on. Even though it is low at the moment, it isn't lower than usual.

Tom Ellis also noted that a Seismometer had been on his land for years and would it be possible to remove it. Sion Richards replied that it wasn't the property of Magnox and that he had passed the message on after meeting Cllr Tom Ellis on site. There was nothing Magnox could do but he would pass on information to the appropriate people once again.

Cllr John Richards enquired about organising a meeting with the NDA as a matter of urgency.
Action point - Jill Callander to arrange an urgent meeting.

14. Date and time of next meeting
Monday 5 December, 10am in the Conference Room, Trawsfynydd Visitors Centre.

The meeting ended at 3.25pm.

COFNODION
25AIN CYFARFOD GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE TRAWSFYNYDD
A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN GYNADLEDDA A SEFYDLU TRAWSFYNYDD
DDYDD LLUN 6ED Mehefin 2016

Yn Bresennol

Y Cyng Keith O'Brien	Cyngor Cymuned Trawsfynydd, Cadeirydd y GRhS
Y Cyng John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau, Dirprwy Gadeirydd y GRhS
Y Cyng D Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Y Cyng Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Y Cyng Tom Ellis	Cyngor Sir Gwynedd
Y Cyng Gareth Thomas	Cyngor Sir Gwynedd
Mr Ifer Gwyn	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Idwal Williams	Trawsnewid
Dafydd Elis-Thomas AM	Aelod Cynulliad Dwyfor Meirionnydd
Mr Martin Moore	Cyfarwyddwr Cau Safle Trawsfynydd
Mr David Carbrera	Magnox Cyf
Mr Rory Trappe	Magnox Cyf
Mr Ian Warner	Magnox Cyf
Sion Richards	Magnox Cyf
Ms Michelle Humphreys	Magnox Cyf
Mr Richard Clarke	Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran Rheoleiddio Niwclear
Mr Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mr Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power
Mrs Jill Callander	Cydlynydd Ysgrifenyddiaeth y GRhS, Magnox Cyf

1. Ymddiheuriadau

Mrs Annette Jones	Sefydliad y Merched
Mrs Gwen Pettifor	Sefydliad y Merched
Mr Nick Blackburn	Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
Mr Andrew McAteer	Peiriannwr Safle Maentwrog
Mr Paul Hunt	Prif Swyddog Gweithredol Safleoedd Datgomisiynu, Cymru a'r Alban
Mr David Powell	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mr Dafydd Jarrett	Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr
Mr Jonathan Cawley	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ms Angharad Rayner	Magnox Cyf
Mr Simon Dawson	Magnox Cyf
Liz Saville Roberts MP	Aelod Seneddol
Mrs Lowri Joyce	Hitachi GE
Mrs Nia Swann Bowden	Cyngor Sir Gwynedd
Mr Jonathan Jenkin	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

2. Cymeradwyo cofnodion 24ain cyfarfod y GRhS a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2015
Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion gan y Cyng Tom Ellis. Cafodd hyn ei eilio gan y Cyng John Richards.

Estynnodd y Cadeirydd groeso arbennig i'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, yn ogystal â Jill Callander, sydd bellach yn gweithio yn hen rôl Karin White fel Ysgrifennydd. Cyflwynodd Jill ei hun a diolchodd i bawb am eu croeso, a soniodd hefyd bod blwch postio arbennig ar gael yn awr ar gyfer gohebiaeth y GRhS ac anogodd yr aelodau i ddefnyddio hwn fel pwynt cyswllt. Trawsfynydd.ssg@magnoxsites.com.

3. Materion yn codi o gofnodion 24ain cyfarfod y GRhS a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2015
Tudalen 5, Pwynt 5.1 – Dywedodd y Cyng Meredydd Williams ei fod wedi derbyn y ffigurau ond nad oedd cyfle wedi bod i'w trafod eto. Byddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal er mwyn eu trafod. Dywedodd ei fod yn dymuno diolch i Geraint a Sion am eu hymateb cyflym.
Tudalen 6 – O ran y pwynt gweithredu a'r canllaw a nodwyd o dan bwynt 9, dywedodd Richard Clarke y byddai Ian Warner yn rhoi cyflwyniad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Dywedodd hefyd mai dim ond yn ddiweddar yr oedd yr ymgynghoriad wedi dod i ben felly byddai'n gwneud synnwyr ei drafod ar ddyddiad diweddarach.

4. Anerchiad y Cadeirydd
Roedd Keith O'Brien wedi mynychu digwyddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ym Manceinion ym mis Ionawr. Y prif fater a drafodwyd oedd Strategaeth Ddrafft yr NDA. Cynhaliwyd gweithdai drwy'r dydd, a chodwyd nifer o bwyntiau. Un pwynt amlwg oedd yr angen i randdeiliaid wneud yn siŵr bod safleoedd yn cael eu defnyddio, er mwyn creu gwaith economaidd ac yn y blaen. Soniodd hefyd eu bod wedi gweld ffilm fer ar waredu daearegol a chladdu gwastraff, a oedd yn ddiddorol iawn. Roedd wedi bod yn gyfle i bawb roi eu barn.

Diolchodd y Cadeirydd i Martin Moore am y daith o'r safle a gynhaliwyd yn gynharach y bore hwnnw. Cynhaliwyd y daith ddiwethaf tua wyth mlynedd yn ôl, a phwysleisiodd bod pawb yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld y datblygiadau a oedd wedi'u gwneud.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cau
Diolchodd Martin Moore i bawb am eu hamser yn mynd ar y daith a chyfeiriodd bawb at ei adroddiad.

Dywedodd bod y perfformiad diogelwch wedi gwella, a bod hyn wedi cymryd llawer o ymdrech. Roedd yr holl waith caled gan bawb ar y safle wedi sicrhau bod gweithdrefn ragweithiol o adrodd a rheoli materion ar waith er mwyn osgoi damweiniau a niwed.

Cafwyd rhai digwyddiadau ers mis Ionawr a oedd wedi golygu bod angen esbonio'n glir i gontractwyr bod yn rhaid iddynt weithio'n ddiogel ar y safle. Roeddent wedi bod yn gweithio gyda hwy gyda'r nod o'u helpu i adnabod safonau. Roedd yn gobeithio y byddai'r safonau yn parhau i godi ac roedd yn falch o gyhoeddi ei fod yn hapusach gyda'r safonau yn gyffredinol, ac yn falch bod y safle yn cael ei gynnal mewn dull diogel ac effeithlon.

Ers cyfarfod diwethaf y GRhS, roedd y cyflwyniad Cynllun Oes i'r NDA wedi'i gwblhau. Deallwyd bod yr NDA yn bwriadu herio'r cynllun. Roedd yr amlinelliad cyffredinol a roddwyd yng nghyfarfod y GRhS ym mis Rhagfyr yn parhau'r un fath - efallai bod y dyddiadau wedi newid ond mae'r cwmpas yr un fath. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys rhaglen ddiwygiedig sydd bellach yn cynnwys cyfnod parhaus o waith hyd at, ac yn cynnwys

cyflwyno'r rhwystr tywydd a'r gostyngiad uchder cysylltiedig i storfeydd diogel yr adweithydd. Disgwylir i'r rhaglen waith gael ei chwblhau yn ystod Blwyddyn Ariannol 2028/29. Bydd y safle yn ceisio cwblhau'r gwaith yn gynharach wrth gwrs, ond mae'r dyddiad hwn yn realistig a chredadwy.

Yn y cyfnod rhwng 2016 a 2022 byddai'r safle yn cwblhau, yn ôl y bwriad, cyfnod lleihau peryglon y gwaith ac yn cwblhau'r gwaith o drosglwyddo'r pecynnau Gwastraff Lefel Canolraddol i'r Cyfleuster Storio Dros Dro. Mae'r Storfa tua 50% yn llawn ar hyn o bryd.

Byddai nifer o ardaloedd gwaith newydd yn cael eu symud o'r cam Comisiynu i'r cam Gweithrediadau yn ystod y flwyddyn hon. Y cyntaf fyddai'r Cyfleuster Slwtsh Amrywiol, sy'n cynhyrchu pecynnau Gwastraff Lefel Ganolraddol yn awr, yna'r gwaith trin Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED) yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

O ran y gweithlu, cadarnhawyd bod llawer o ansicrwydd wedi bod yn ôl ym mis Rhagfyr, wrth i'r safle fynd drwy'r rhaglen ailstrwythuro, fodd bynnag, mae'r canlyniad wedi bod yn fwy cadarnhaol ar y cyfan na'r hyn yr oedd pobl wedi'i ddisgwyl. Roedd y safle wedi gallu cadw'r rhan fwyaf o'r gweithlu sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, ac roeddent wedi gallu cynnig cyflogaeth i bobl o Wylfa. Roedd yn teimlo'n falch dros yr unigolion ond dywedodd bod hyn yn fuddiol i'r safle yn ogystal. Roedd hyn yn agos iawn at y nod gwreiddiol.

Roedd Traws wedi cynnal ymweliad yn ddiweddar gan y Pwyllgor Seneddol Materion Cymreig i gefnogi eu Hymchwiliad i Ddyfodol Pŵer Niwclear yng Nghymru. Fel rhan o'r broses hon, roedd ef a Rheolwr Gyfarwyddwr Magnox a Chyfarwyddwr Safle Wylfa wedi'u galw i San Steffan i roi tystiolaeth i gefnogi'r Ymchwiliad.

<u>Cwestiynau</u>

5.1 ***Ymholodd y Cyng John Richards*** *ymhellach ynglŷn â datgomisiynu cyfleuster FED y Gogledd.*
Martin Moore: *Roedd y paratoadau i adfer FED wedi gwneud cynnydd da ac roedd cyfleuster FED y Gogledd wedi dechrau gwaith comisiynu anweithgar. Roedd adfer FED yn parhau i fod ar y trywydd cywir i ddechrau ddiwedd mis Hydref 2016*

5.2 ***Y Cyng Gareth Thomas:*** *Rydych yn sôn am staff o'r Wylfa a sgiliau ychwanegol. Pa fath o sgiliau yw'r rhain?*
Martin Moore: *Gallai'r rhain fod yn sgiliau confensiynol neu'n sgiliau dymchwel er enghraifft, a sgiliau y gellid eu trosglwyddo, er enghraifft sgiliau rheoli prosiectau. Wrth edrych i'r dyfodol pan fydd y gwaith ar y safle yn waith dymchwel yn unig yn y cam lleihau uchder, disgwylir i'r contractau gael eu dyfarnu i gontractwyr arbenigol, fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen o hyd am ystod eang o sgiliau ar y safle. Bydd contractwyr yn aml yn ceisio cyflogi pobl yn lleol os yn bosibl, oherwydd mae'n aml yn lleihau eu costau, ac mae'n bwysig i bobl gael y sgiliau sy'n addas ar gyfer swyddi amrywiol er mwyn gallu bod yn gyflogadwy yn yr hirdymor.*

Efallai y bydd mathau eraill o waith ar gael yn yr ardal, ar wahân i niwclear, ac roedd datblygu'r sgiliau amrywiol yn cael ei annog, e.e. trydanwyr, rheolwyr prosiect ac yn y blaen.

Mae pobl wedi derbyn rolau newydd y maent yn fwy nag abl i'w gwneud, ac fe anogir hyn. Ni fydd pawb yn gallu (nac eisiau) symud ymlaen i'r cam adeiladu, ond mae'n sicr bod gwaith ar gael.

Roedd pobl yn ansicr i ddechrau ar ôl iddynt symud o Wylfa i Traws, ond maent wedi addasu'n gyflym ac mae'r gwaith yn ddiddorol, yn wahanol a chyffrous.

5.3 ***Idwal Williams:*** *Fe wnaethoch sôn bod y Pwyllgor Seneddol Materion Cymreig wedi ymweld â'r safle a thrafod cyflogaeth hirdymor, a oes gennych chi unrhyw beth arall i'w ychwanegu am y materion hyn?*
Martin Moore: *O safbwynt personol, mae yna weithlu parod yn yr ardal, ond nid yw cyflogwr ar gyfer y dyfodol yr un mor amlwg ar hyn o bryd. Mae Magnox yn gobeithio cwblhau eu gwaith cyn gynted â phosibl ond byddem yn amlwg yn ceisio gweithio ochr yn ochr ag unrhyw gyflogwr yn y dyfodol pe byddent yn dymuno datblygu'r safle i'w ddefnyddio yn y dyfodol.*

6. Adroddiad Amgylcheddol
Yn absenoldeb Angharad Rayner, dywedodd Sion Richards na fu unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y flwyddyn ac y byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar ddiwedd y flwyddyn.

7. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol Cynllunio Brys
Dywedodd Sion Richards eu bod yn y broses o gynnal trafodaeth gyda'r Swyddfa dros Reoli Niwclear a'u bod yn gobeithio derbyn cymeradwyaeth derfynol gan y Rheoleiddiwr. Erbyn diwedd y flwyddyn, y gobaith oedd y byddai trefniadau wrth gefn newydd ar waith yn lle'r rhai presennol. Nid oedd unrhyw faterion mawr i'w nodi ers y cyfarfod diwethaf ond roedd y gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

Dywedodd Martin Moore bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi mynegi pryderon ynglŷn â graddau eu cyfranogiad yn y trefniadau safle, ond roedd eu cyfranogiad parhaus yn y gwaith o gynllunio ymarferion a'r ymarferion diweddar ar y safle, wedi sicrhau bod pob parti yn llawer hapusach gyda'r trefniadau newydd. Fel un enghraifft, dywedodd bod yr abseilwyr wedi bod yn gweithio ar y safle yn ddiweddar a phe byddai digwyddiad, ni fyddai disgwyl i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gamu i mewn i achub pobl wedi'u hanafu, ond byddai trefniadau hunan-achub profedig ar y safle yn adfer unigolion wedi'u hanafu i bwynt trosglwyddo. Yn gyffredinol, roedd yn achos o ddod allan o'r trefniant presennol a chanfod trefniadau sy'n gweithio i Traws, a lefelau uwch o ymrwymiad ac ymgysylltiad.

<u>Cwestiynau</u>

7.1 ***Y Cyng Tom Ellis****: O ran ymarferion ac yn y blaen, a yw hyn yn mynd i greu pryder ymhlith pobl leol? A oes ffordd o roi gwybod i ni pryd y bydd ymarferion yn cael eu cynnal?*
Martin Moore: *Rydym yn hysbysu pobl ynglŷn ag ymarferion diogelwch. Bydd ymarfer mwy helaeth yn cael ei gynnal yn y dyfodol, a bydd pobl yn cael eu hysbysu ynglŷn â hyn cyn hynny.*

7.2 ***Y Cyng Tom Ellis****: Flwyddyn neu ddwy yn ôl, clywyd hofrenyddion yng nghanol y nos, a achosodd bryder mawr. Dylai pobl leol gael eu rhybuddio, fel arall bydd llawer o banig – yn arbennig yn yr oes sydd ohoni.*
Atgyfnerthodd y Cadeirydd y pwynt hwn, a dweud bod ffermwyr lleol eisoes wedi derbyn gwybodaeth am ymarfer gan y fyddin ym mis Medi/Hydref.
Martin Moore: *Fe wnaethom godi pryderon yn dilyn y digwyddiad hwnnw a siaradais â Liz Saville Roberts am y mater. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd proses gyfathrebu helaeth ar yr ymarfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a bydd pobl yn cael eu hysbysu ynglŷn â hyd yr ymarfer, y cerbydau dan sylw ac yn y blaen. Rydym yn cydnabod eich sylwadau. Er hynny, mae'r ymarferion yma yn bwysig, ond rwy'n cytuno'n llwyr fod y digwyddiad y llynedd yn annerbyniol.*
Y Cyng Meredydd Williams*: Roedd llawer o banig ac ofn ar y pryd. Nid oedd yr Heddlu hyd yn oed yn gwybod beth oedd yn digwydd a dywedwyd wrth bobl gysylltu ag RAF Fali. Nid oedd RAF Fali yn gwybod am yr ymarfer 'chwaith, a dim ond ar ôl rhai oriau y daeth pethau'n gliriach. Gwyddom fod ymarfer arall ym mis Hydref. Dylid sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod am hyn a dylai'r Heddlu wybod amdano ymlaen llaw. Mae'n ddealladwy wrth gwrs bod angen i'r ymarferion hyn gael eu cynnal.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am godi'r pwyntiau hyn a nodwyd bod angen proses gyfathrebu well yn y dyfodol.

8. Adroddiad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Nid oedd cynrychiolydd o'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn bresennol yn y cyfarfod, ond roedd adroddiad wedi'i ddarparu.

9. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru
Dywedodd Paul Wright fod popeth ymhell o fewn y lefelau o ran gollyngiadau ymbelydrol. Nid oedd unrhyw fater amlwg a oedd yn peri pryder.

Cododd Richard Clarke rai pwyntiau ynglŷn â materion nad ydynt yn rhai arferol. Roeddent wedi bod yn adolygu digwyddiad a ddigwyddodd ym mis Chwefror, lle'r oedd y cyflenwad arfaethedig o swmp-gynwysyddion diwydiannol wedi cychwyn y monitorau ymbelydredd wrth y giât. Nid oedd unrhyw eitemau wedi gadael y safle, ond roedd hyn yn amlygu'r diffygion wrth weithredu safonau'r Cwmni ar gyfer rheoli cynwysyddion symudol.

Roeddent yn fodlon gyda Chynllun Ansawdd Adfer y gweithredwr ac yn fodlon â'r mesurau dros dro a gyflwynwyd. Roeddent yn gobeithio y byddai'r asesiad gorfodi yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin.

O ganlyniad i ddigwyddiad a godwyd ar 29 Hydref 2015 ynglŷn â system profi gwastraff HiRAM, cyflwynwyd Llythyr Rhybudd i'r safle am dorri tri o amodau'r drwydded. Dywedodd Richard Clarke eu bod yn hoffi gweithredu'n bragmataidd mewn sefyllfaoedd o'r fath, a gweithio gyda safleoedd yn hytrach na dim ond cyflwyno llythyrau. Dywedodd bod y safle wedi'i drawsnewid mewn ffordd gadarnhaol ers 2014, ond bod rhai materion heb eu datrys gyda HiRAM a'r ffordd yr oedd y safle a'r contractwyr yn cael eu rheoli. Fodd bynnag, roedd y Safle yn gwneud cynnydd da o ran y cynllun adfer, ac roeddent yn teimlo'n hyderus ynglŷn â'r dyfodol.

10. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Nid oedd cynrychiolydd o'r NDA yn bresennol, ond roedd adroddiad wedi'i ddarparu.

Dywedodd y Cyng John Richards ei bod yn drueni nad oedd unrhyw un yn bresennol o'r NDA oherwydd mae blwyddyn yn amser hir i aros am atebion i gwestiynau.

Deallwyd mai'r cyfnod neilltuaeth ar gyfer refferendwm yr UE oedd y rheswm dros absenoldeb yr NDA.

Dywedodd y Cyng John Richards yr hoffai wybod beth oedd bwriadau'r NDA o ran safle Maentwrog. A fyddai'n bosibl cael ateb i'r cwestiwn hwnnw neu drefnu cyfarfod?

Mynegodd Idwal Williams bryder hefyd.

Nid oedd cynrychiolydd o Faentwrog yn bresennol yn y cyfarfod a gofynnwyd a oedd rheswm dros hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd i Jill a fyddai'n bosibl canfod beth oedd y rheswm pam nad oedd swyddogion Maentwrog yn bresennol.

11. Cyflwyniad: Optimeiddio rheoli gwastraff a chyflwr terfynol y safle
Rhoddodd Ian Warner, Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol, Magnox Cyf, gyflwyniad ar Optimeiddio cyflwr terfynol y safle a'r gwaith rheoli gwastraff cysylltiedig.

Fe esboniodd mai diben y cyflwyniad oedd rhoi diweddariad ar y canllaw Rheoliadol newydd (y cyfeirir ato fel y "GRR") a newidiadau posibl, a darparu trosolwg o'r rhaglen waith gysylltiedig ac effaith bosibl hyn ar gyflwr terfynol y safle.

Fe esboniodd y dull gweithredu presennol ar gyfer safleoedd Niwclear Trwyddedig, a'r trwyddedau a'r hawlenni amrywiol dan sylw, h.y. cyfraniad yr ONR (Diogelwch Niwclear), Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd (diogelu'r Amgylchedd/Cyhoedd) a'r Awdurdod Lleol drwy'r fframwaith cynllunio a datblygu.

Rhoddodd wybodaeth gefndir am gylch oes gorsaf bŵer ac esboniodd y camau a'r amserlenni amrywiol i gyfleu'r cyfnod o Reoleiddio Amgylcheddol sy'n berthnasol i orsafoedd niwclear. Y cwestiwn sy'n cael ei ofyn gan y Llywodraeth yw a oes ffordd fwy cytbwys o reoleiddio'r safleoedd ym mlynyddoedd olaf eu cylch oes, er enghraifft a oes angen rheoleiddiwr diogelwch niwclear arbenigol ar ôl mynd i'r afael â'r holl beryglon niwclear sylweddol gyda'r mathau o waith sy'n weddill o natur gonfensiynol ar y cyfan, e.e. gweithgareddau dymchwel.

Cyfeiriodd at y Canllaw ar Ofynion Rhyddhau Safleoedd Niwclear o Reoleiddio Sylweddau Ymbelydrol, y Canllaw newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Asiantaethau'r Amgylchedd. Y nod yw meddwl am beth yw'r peth cywir i'w wneud gyda gwastraff. Mae'n seiliedig ar reoli risgiau ac ar ddatblygu atebion mwy cynaliadwy.

Pan fyddai'n briodol ac wedi'i optimeiddio, gallai rhywfaint o wastraff datgomisiynu lefel isel barhau ar y safle yn hytrach na chael ei gludo i'w waredu oddi ar y safle. Manteision hyn yw:

- Llai o wastraff yn cael ei gludo i'w waredu
- Llai o ddeunydd yn cael ei fewnforio i lenwi gwagleoedd
- Diogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu
- Defnyddio llai o adnoddau
- Gwerth am arian gwell

Mae'r mathau o wastraff yn cynnwys:

- Gwastraff Lefel Isel
- Cyfaint cymharol uchel/gwastraff lefel isel
- Gwastraff sy'n gysylltiedig â dymchwel/strwythurau tanddaearol segur, yn cynnwys tanciau/gwagleoedd concrid, rwbel concrid/bric, pridd a phibellau/draeniau wedi'u claddu.

Gallai'r opsiynau o ran beth i'w wneud gyda'r gwastraff gynnwys ei gludo oddi ar y safle ar y ffordd i'w waredu oddi ar y safle i adeiladu cyfleuster gwaredu gwastraff penodedig ar y safle (nid yw'r ail opsiwn hwn yn cael ei ystyried ar gyfer Trawsfynydd), ymhlith pethau eraill. Mae wir yn fater o geisio sefydlu'r opsiwn mwyaf cynaliadwy ond gan roi ystyriaeth yr un pryd i nifer o ffactorau gwahanol.

Dewiswyd tri safle 'arwain a dysgu' er mwyn treialu'r canllaw dros y flwyddyn nesaf (gyda chyfranogiad y rheoleiddiwr) - Winfrith, Dounreay a Thrawsfynydd. Y nod yw datblygu'r atebion gorau i'r safleoedd hyn ac asesu'r amserau ar gyfer ystyriaethau cynllunio ac yn y blaen. Byddai'r Canllaw ar Ofynion Rhyddhau yn cael ei adolygu fel y bo'n briodol a byddai'r hyn a ddysgwyd yn cael ei ddefnyddio ar y safleoedd eraill.

I grynhoi, mae hyn yn golygu treialu Canllaw Rheoliadol newydd fel rhan o adolygiad ehangach o'r gwaith o reoleiddio safleoedd niwclear. Mae'n ofyniad i ni ddatblygu'r cyflwr terfynol gorau a allai gynnwys gadael rhywfaint o wastraff gweithgarwch isel ar y safle. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto, a bydd ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ffurfio rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cyflwr terfynol gorau.

<u>Cwestiynau</u>

11.1 ***Rory Trappe****: O ran Pyllau er enghraifft, sut mae hyn yn effeithio ar amseriad y gwaith datgomisiynu?*
Ian Warner*:* Ni ddylai hyn gael ei effeithio.

11.2 ***Idwal Williams****: O ystyried y tri safle hyn, oni allech chi wneud hyn gyda safleoedd eraill oherwydd eu lleoliad agos at y môr. Mae'n rhaid i chi ddod i ddealltwriaeth gyda'r ardaloedd lleol. Mae posibiliadau o wneud llawer o arbedion yma. Dylai rhywbeth ddod yn ôl i'r gymuned. O ran bod yn agos at y môr, gyda lefelau'r môr yn codi, efallai na allwch wneud hynny.*
Y Cyng John Richards*: Mae'n debyg bod hyn yn ymarfer i arbed arian.*

***Ian Warner**: Mae hyn yn mynd yn ôl at yr opsiynau. A yw'n gwneud synnwyr symud pethau o un rhan o'r wlad i'r llall? Gellid sicrhau arbedion mewn meysydd eraill hefyd, er enghraifft diogelwch confensiynol, osgoi dos i weithwyr a lleihau'r effaith amgylcheddol o gludo symiau mawr o wastraff oddi ar safleoedd. Mae angen ystyried yr holl ffactorau hyn fel rhan o'r ymarfer optimeiddio.*

*11.3 **Y Cyng John Richards**: Cawsom wybod am dri phecyn. Nid oes mandad clir o hyd. Pam fod y broses yn cymryd cymaint o amser?*
***Martin Moore:** Rydym wedi gorfod mynd drwy broses gynllunio fanwl ac yn y blaen o ran Pyllau. Nes yr oeddem wedi dadhalogi'r Pyllau, roedd yn anodd gwneud gwaith am nad oeddem eisiau i bobl gael eu hamlygu i ymbelydredd. O safbwynt y safle, mae angen i ni wybod gyda phwy y dylem drafod yr opsiynau diwygiedig, ac mae hyn yn gyfle i edrych ar faterion eto. Mae'r tri safle hyn wedi chwarae rhan hollbwysig. Rydym wedi cael trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol ac wedi rhagweld y canllaw yn briodol. Hyd nes y byddwn yn gwybod beth sydd yn y ddaear, ni allwn wneud unrhyw beth. Mae gennym ddarlun cliriach yn awr.*
***Richard Clarke:** Mae yna nifer o resymau amrywiol pam fod hyn wedi cymryd cymaint o amser. Mae'n rhaid i ni gydnabod yr angen i wybod beth sy'n digwydd a phryd. Mae gennym haenau o reoliadau ac mae angen i ni wybod pwy sy'n gwneud beth, a dyma sydd wedi bod yn gymhelliant i'r holl waith hwn. Mae'n bosibl y bydd ONR yn gadael y broses ar ryw gam ac mae'n rhaid i'r DU ddangos y gall ddelio ag etifeddiaeth niwclear.*

*11.4 **Y Cyng Gareth Thomas:** Mae yna lawer o waith i'w wneud i werthu hyn i'r gymuned. O ran Pyllau, er enghraifft, efallai y bydd pobl yn ceisio gwneud y peth cywir ymhen 20 mlynedd, ond yna mae'n eithaf posibl y bydd lefel y môr wedi codi ac y bydd angen dod â phethau i Traws. Dyna yw'r pryder.*
***Ian Warner**: Nid oes unrhyw fwriad i symud gwastraff o safleoedd eraill i'w gwaredu yn Nhrawsfynydd.*
***Y Cyng Gareth Thomas:** Ymhen 20 mlynedd, efallai y bydd rhywun mewn sefyllfa debyg yn dweud 'fe wnawn ei symud i Traws'. Mae'n bryder lleol.*
***Richard Clarke:** Rhaid cofio mai treial yw hyn. Mae lefel y manylder yn eithriadol felly os byddwch yn llenwi'r gwagleoedd ac yn gadael concrid wedi'i halogi, mae'n rhaid i'r achos diogelwch fod ar gyfer cannoedd o flynyddoedd yn y dyfodol, gyda gwaith monitro parhaus. Yn nhermau Rheoliadau, byddem yn defnyddio pawb posibl wrth edrych ar y gwaith er mwyn sicrhau'r mewnbwn gorau posibl.*
***Y Cyng Tom Ellis:** Pyllau yw'r prif bryder. Pwy fydd yn edrych ar eu cyflwr mewn 60, 70 neu 100 o flynyddoedd? Maent yn sicr yn mynd i ddirywio, ond pwy sy'n mynd i gadw golwg arnynt a gofalu amdanynt?*
***Martin Moore:** Mae gwaith wedi'i wneud ac rydym wedi edrych ar y strwythur. Mae'n rhaid i ni ddangos sail i ragdybiaethau ac mae gennym dimau o arbenigwyr lleol. Os bydd unrhyw beth yn anghyflawn, ni fydd yn cael ei gymeradwyo. Os mai'r ateb fyddai gadael y Pyllau yn y ddaear, byddai'r asesiad yn mynd i'r afael â'r cwestiwn "am ba hyd y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ddiogel?" Ar y cam hwn byddai'n bosibl gwneud achos sy'n cwmpasu tua 150 o flynyddoedd, ac ar ôl hynny byddai'r perygl wedi lleihau'n sylweddol.*

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu sylwadau a phwysleisiodd mai dim ond dechrau'r broses yw hyn a bod sicrhau proses gyfathrebu glir yn hollbwysig.

12. Diweddariad ar gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox
Dywedodd Michelle Humphreys bod 120 o sefydliadau wedi elwa ar hyd a lled y DU, a bod hyn wedi arwain at 89 o swyddi newydd, £2.2 miliwn o fudd economaidd, yn ogystal â nifer o gyfleoedd hyfforddiant.

Diolchodd i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad diweddar ar Gynllun Economaidd-Gymdeithasol drafft Magnox.

Roedd yn falch o gael cyhoeddi bod yr Academi Sgiliau Traeth yng Nghlwb Pêl-droed Porthmadog yn mynd rhagddo'n dda. Roedd Grŵp Gweithredu Cymunedol Cwm hefyd wedi derbyn cyllid gan Magnox a Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Llwybr Llechi Eryri.

Roedd rhaglen Arloesi Gwynedd yn gwneud cynnydd da hefyd, gyda llawer o weithgareddau cyffrous ar y gweill.

13. Unrhyw Fater Arall
Rhoddodd Richard Foxhall ddiweddariad am Wylfa. Roedd Horizon wedi penodi menter ar y cyd ar gyfer adeiladu Wylfa Newydd. Mae'r cwmni newydd, Menter Newydd, yn fenter ar y cyd rhwng Hitachi Nuclear Energy Europe, Bechtel Management Company a JGC Corporation (UK).

Soniodd am y stori yn y wasg a oedd yn datgan na fyddai Wylfa Newydd yn cael ei hadeiladu, a phwysleisiodd nad oedd unrhyw sail i'r stori hon.

Roedd ymgynghoriad wedi'i gynnal ym mis Ionawr ar y cais cynllunio i'w gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn. Roedd dwy flynedd o waith wedi cyfrannu at hyn a'r gobaith oedd sicrhau gorchymyn cydsynio.

Roedd Prif Swyddog Gweithredol wedi'i benodi – Duncan Hawthorne – a oedd wedi bod yn gweithio gyda Bruce Energy yng Nghanada. Roedd Sasha Wyn Davies wedi'i phenodi hefyd fel Pennaeth Datblygiad Strategol Wylfa Newydd. Mae'n ymuno â thîm Wylfa Newydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a bu'n gweithio'n flaenorol fel Pennaeth Datblygiad Economaidd yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r gwaith i ehangu'r swyddfa i ddarparu ar gyfer 80 o weithwyr yn dod i ben.

Byddai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos hefyd ar y cyfnod recriwtio diweddar, lle'r oedd pobl ifanc leol wedi'u recriwtio.

Diolchodd y Cadeirydd i Richard Foxhall am ei adroddiad.

Dywedodd y Cyng Tom Ellis bod lefel y llyn wedi gostwng yn sylweddol a gofynnodd a fyddai'n bosibl profi'r mawn am lefelau ymbelydredd. Atebodd Sion Richards bod profion yn cael eu cynnal pan fydd y lefel yn isel – mae hyn yn rhywbeth i gadw golwg arno. Er bod y lefel yn isel ar hyn o bryd, nid yw'n is nac arfer.

Dywedodd Tom Ellis hefyd bod y Seismomedr wedi bod ar ei dir ers blynyddoedd ac a fyddai'n bosibl ei symud. Atebodd Sion Richards nad oedd yn eiddo i Magnox a dywedodd y byddai'n trosglwyddo'r neges ymlaen ar ôl cael cyfarfod gyda'r Cyng Tom Ellis ar y safle. Nid oedd unrhyw beth y gallai Magnox ei wneud ond byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth i'r bobl briodol unwaith eto.

Gofynnodd y Cyng John Richards a fyddai'n bosibl trefnu cyfarfod gyda'r NDA fel mater o frys.
Cam gweithredu – Jill Callander i drefnu cyfarfod brys.

14. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf
Dydd Llun 5 Rhagfyr, 10am yn yr Ystafell Gynadledda, Canolfan Ymwelwyr Trawsfynydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25pm.